**WEDI'I DDIWYGIO DROS DRO OHERWYDD PANDEMIG COVID:**

**Yn ddilys tan Ebrill 2021**

# Dulliau Gweithredu Safonol (SOPs) ac asesu cymwyseddau o ran yr offeryn tynnu a gwaredu arllwysiadau isgroenol mewn lleoliadau cymunedol HCSW BIPBC YN UNIG.

*Mae'n RHAID i'r holl staff y mae'n ofynnol iddynt ddefnyddio'r Dulliau Gweithredu Safonol hyn fod wedi cael lefel 2 neu uwch mewn hyfforddiant QCF ac i fod wedi cael eu hasesu i fod yn gymwys o ran pob gweithred berthnasol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Awdur a Theitl** | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau Nyrsys Rheoli Meddyginiaeth BIPBC | | | | |
| **Adran / cyfarwyddwr â chyfrifoldeb:** | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio<br>Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau<br>Awdurdodau Lleol | | | | |
| **Cymeradwywyd gan:** | MPPP, DTG, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Fforwm Gofal Trigfannol a Fforwm Gofal Cymru<br>Cyfarwyddwyr Nyrsio Ardal<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio | | | | |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | Tachwedd 2015 / Mehefin 2020 | | | | |
| **Dyddiad gweithredu (mynd yn fyw):** | Tachwedd 2015 | | | | |
| **Dogfennau i'w darllen ochr yn ochr â'r ddogfen hon:** | • Safonau arferion gorau a gweithdrefnau gweithredu safonol terfynol ar gyfer rheoli meddyginiaethau ar gyfer pob lleoliad gofal Ebrill 2020<br>• Dull Gweithredu Safonol ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn lleoliadau Cartrefi Gofal yng Ngogledd Cymru<br>• Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn lleoliadau cartref yng Ngogledd Cymru<br>• Dougherty L. & Lister S. (2011) The Royal Marsden Hospital Manual of Clinical Nursing<br>• Royal Pharmaceutical Society Professional Guidance on the Administration of Medicines in Healthcare Settings. (Ionawr 2019)<br>• Canllawiau Cymru Gyfan ar Ddirprwyo Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HEIW 2020)<br>• Egwyddorion Arweiniol Cenedlaethol ar gyfer Cymorth Meddyginiaethau yn y Sector Gofal Cartref (ADSS Cymru 2019)<br>• Hyfforddiant rhoi meddyginiaeth COVID- 19 (HEIW 2020) | | | | |
| **Dyddiad yr adolygiad** | Ebrill 2021 | | | | |
| **Dyddiad cwblhau'r EqIA:** | Tachwedd 15 (Polisi Cyffredinol MM01) | | | | |
| **Yn weithredol yn gyntaf:** | Tachwedd 2015 | | | | |
| **Wedi'i adolygu'n flaenorol:** | Rhagfyr 2016 | Chwefror 2019 | Ebrill 2020 | | |
| **Newidiadau wedi'u gwneud. Do/naddo:** | Do | Do | Do | | |

## Gweithredu Safonol ar gyfer tynnu a gwaredu arllwysiadau isgroenol mewn lleoliadau cymunedol

Mae'n rhaid i'r Dull Gweithredu Safonol hwn (SOP) gael ei ddefnyddio ar gyfer dinasyddion / cleifion / preswylwyr sydd â'r galluedd i gydsynio i driniaeth yn unig. Os tybir nad oes gan y dinesydd / claf / preswylydd alluedd ar adeg triniaeth, mae'n **rhaid** i'r gofalwr gyfeirio'n ôl at Feddyg Teulu / Nyrs Practis / Nyrs Ardal, tîm neu reolwr ac **ni chaiff** fynd ymlaen â'r driniaeth.

Diffiniad o gydsyniad, galluedd a gwrthod (Rhoi meddyginiaeth HEIW 2020)

*Cydsyniad – mae hyn pan fo unigolyn yn rhoi ei ganiatâd i dderbyn gofal gan unigolyn arall. I gydsyniad fod yn ddilys, mae'n rhaid iddo fod o'i wirfodd, yn gytbwys ac mae'n rhaid bod gan yr unigolyn sy'n cydsynio'r galluedd i wneud penderfyniad.*

*Galluedd - er mwyn i unigolyn fod â'r galluedd i roi cydsyniad, mae'n rhaid iddo allu deall y wybodaeth a roddir iddo ac i ddeall y wybodaeth hon er mwyn gwneud dewis.*

*Gwrthod - gall unigolyn sydd â'r galluedd i wneud penderfyniad wrthod triniaeth ac mae'n rhaid parchu'r penderfyniad hwnnw*

Mae'n rhaid rhoi gofal er lles pennaf y dinesydd / claf / preswylydd. Y prif reswm dros ddirprwyo yw diwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yr unigolyn. Mae gan bob sefydliad bolisi cydsynio ar waith a dylai fod cydymffurfiaeth ag ef (Canllawiau Cymru Gyfan ar ddirprwyo (HEIW) 2020)

| | **Cam gweithredu** | **Sail resymegol** |
|---|---|---|
| 1 | Mae'n rhaid i'r nyrs sy'n gofalu am y claf/ dinesydd ddirprwyo'r dasg hon | Y nyrs gofrestredig sy'n parhau i fod yn gyfrifol am ddirprwyo. Atebolrwydd o ran y penderfyniad i dynnu'r arllwysiad / caniwla isgroenol |
| 2 | Esbonio a thrafod y weithred gyda'r claf/dinesydd a chael cydsyniad ar lafar os yw'n briodol | Er mwyn sicrhau bod y claf/dinesydd yn deall y weithred a'i fod yn rhoi ei gydsyniad dilys |
| 3 | Sicrhau eich bod yn gwybod pwy yw'r claf/dinesydd | Sicrhau bod manylion y claf/dinesydd yn cael eu gwirio cyn eu rhoi er mwyn sicrhau bod manylion y claf/dinesydd ar roi cyffuriau'n gywir |
| 4 | Mae'n rhaid i'r caniwla isgroenol gael ei dynnu os na fydd angen unrhyw hylifau isgroenol pellach neu os bydd arwyddion clinigol haint i'w gweld. | Er mwyn atal haint rhag codi |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **Casglu offer sydd ei angen i dynnu caniwla isgroenol**<br>• Ffedog un-tro y gellir ei thaflu i ffwrdd<br>• Menig un-tro nad ydynt yn sterilaidd y gellir eu taflu i ffwrdd<br>• Hambwrdd plastig heb dyllau wedi'i gymeradwyo gan ANTT<br>• Os bydd yr angen am ddefnydd un-tro yn codi, pecyn gorchuddion sterilaidd y gellir eu taflu i ffwrdd<br>• Gorchudd sterilaidd addas<br>• Cynhwysydd offer miniog<br>• Dŵp meddyginiaethau (bin gwastraff) | |
| 6 | Esbonio'r weithred i'r claf/dinesydd/preswylydd a'i thrafod gydag ef | Er mwyn sicrhau bod y claf/dinesydd/preswylydd yn deall y weithred a'i fod yn rhoi ei gydsyniad dilys |
| 7 | Golchi dwylo gyda sebon lladd bacteria a dŵr neu gel alcohol i ladd bacteria, gwisgo ffedog a menig sy'n ffitio'n dda. | Er mwyn sicrhau bod y weithred mor lân â phosibl a lleihau croesheintio. |
| 8 | Glanhau'r hambwrdd gan ddefnyddio cadach glanhau sydd wedi'i gymeradwyo gan BIPBC.<br>(Os bydd yr angen yn codi am hynny, agor pecyn gorchuddion sterilaidd<br>ar arwyneb glân), rhoi'r holl<br>offer sterilaidd un-tro sydd ei angen mewn maes aseptig gan gynnal agweddau allweddol ar amddiffyn bob amser. | Mae hyn yn unol â hyfforddiant gorfodol ANTT BIPBC |
| 9 | Sicrhau preifatrwydd ac urddas y claf / dinesydd | |
| 10 | Ffedog un-tro y gellir ei thaflu i ffwrdd | Er mwyn amddiffyn dillad neu wisg waith rhag<br>halogi a throsglwyddo posibl o ran micro-organebau |
| 11 | Defnyddio menig un-tro sy'n ffitio'n dda nad ydynt yn rhai sterilaidd y gellir eu taflu i ffwrdd | Er mwyn amddiffyn y dwylo rhag halogi a throsglwyddo micro-organebau |
| 12 | Wrth dynnu'r caniwla, dylid ei dynnu'n ofalus gan ddefnyddio symudiad araf a phwyllog a dylid rhoi pwysau ar y man dan sylw unwaith y bydd y caniwla isgroenol wedi'i dynnu. | Er mwyn cynnal diogelwch yr unigolyn a'r claf/dinesydd gan roi pwysau'n bwyllog er mwyn osgoi unrhyw gleisio neu hylif yn gollwng o'r safle |
| 13 | Dylid archwilio cyfanrwydd y caniwla er mwyn sicrhau bod y ddyfais gyflawn wedi'i thynnu | |

| | | |
|---|---|---|
| 14 | Cael gwared ar wastraff clinigol yn unol â pholisi BIPBC<br><br>(er mwyn dadnatureiddio'r feddyginiaeth cyn ei gwaredu)<br><br>Pennawd 9 Cyffuriau Rheoledig<br><br>Pennawd 10 Gwaredu meddyginiaethau a'u dinistrio<br><br>Ystyried y gofyniad i waredu unrhyw offer miniog yn y ffordd gywir | Er mwyn atal croesheintio a halogi amgylcheddol. **Mae'n rhaid gwaredu arllwysiadau a roddir yn rhannol yn unol ag MM01 (**mae dadnatureiddio meddyginiaeth yn golygu newid ei ffurf er mwyn atal rhag ei hail-ddefnyddio, dylid mwydo meddyginiaethau hylifol mewn tywel papur cyn eu gwaredu yn y cynhwysydd offer miniog). |
| 15 | Dylid archwilio'r safle a'i oruchwylio gyda gorchudd sterilaidd. | Atal heintiau |
| 16 | Tynnu menig a ffedog a'u gwaredu'n briodol. Golchi dwylo'n drwyadl gyda sebon a dŵr a/neu gel alcohol sy'n lladd bacteria | Rheoli Heintiau |
| 17 | Cofnodi'r weithred yng nghynllun gofal y claf/dinesydd/preswylydd gan gynnwys dyddiad gosod y gorchudd. | Er mwyn cadw cofnodion cyfoes ac atal rhag cadw gorchuddion ymlaen yn hwy nag sydd angen. |
| 18 | Arsylwi'r claf am unrhyw adweithiau negyddol a chyfeirio'n ôl at nyrs gofrestredig os bydd unrhyw adweithiau'n codi | |

**Dogfen gymhwysedd ar gyfer Gweithwyr Gofal, Gweithwyr Cefnogi Gofal Iechyd/Cynorthwywyr o ran yr offeryn tynnu a gwaredu arllwysiadau isgroenol mewn lleoliadau cymunedol HCSW BIPBC YN UNIG.**

**D.S. Dim ond staff a enwebir gan reolwr sy'n gallu cwblhau'r cymhwysedd hwn.**

Enw a Llofnod yr HCSW: …………………………………………………………………..

Canolfan Weithio/ Ardal:………………………………………Dyddiad ………………

Enw'r Aseswr: ..........................................................................……

**ASESU YMARFEROL**

I gael ei gwblhau ar o leiaf dri achlysur gydag aseswr

Mae'n RHAID i'r aseswr gael llofnod am bob elfen o'r cymhwysedd

Mae'n rhaid i'r Gweithwyr Cefnogi Gofal Iechyd/Cynorthwywyr/Gweithwyr Gofal gyflawni'r HOLL ganlyniadau cyn bo modd ei ystyried yn gymwys

| | | Wedi bod yn dyst i'r ymarfer | | | Llofnod yr aseswr a'r Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 1.<br>Dyddiad | 2.<br>Dyddiad | 3.<br>Dyddiad | |
| 1 | Mae'n rhaid i'r nyrs neu'r rheolwr sy'n gofalu am y claf/ dinesydd/ preswylydd ddirprwyo'r dasg hon | | | | |
| 2 | Esbonio'r weithred i'r claf/dinesydd/preswylydd a'i thrafod gydag ef.<br><br>Yn cael cydsyniad ar lafar. | | | | |
| 3 | Helpu'r claf/dinesydd/preswylydd i roi ei hun mewn safle cyfforddus ac yn cynnal urddas y claf/dinesydd/preswylydd. | | | | |
| 4 | Sicrhau bod yr ymgeisydd yn golchi dwylo gyda sebon lladd bacteria a dŵr neu gel alcohol i ladd bacteria, gwisgo ffedog a menig sy'n ffitio'n dda. | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Sicrhau bod yr ymgeisydd yn cael yr offer cywir a phriodol | | | | |
| 6 | Gwirio p'un a ddylai'r caniwla isgroenol gael ei dynnu, gan sicrhau nad oes angen unrhyw hylifau isgroenol pellach neu os bydd arwyddion clinigol haint i'w gweld | | | | |
| 7 | Sicrhau bod yr ymgeisydd yn ymwybodol o'r broses ANTT a phwysigrwydd ei gynnal. Glanhau'r hambwrdd gan ddefnyddio cadach glanhau sydd wedi'i gymeradwyo gan BIPBC. (Os bydd yr angen yn codi am hynny, agor pecyn gorchuddion sterilaidd mewn maes glân), rhoi'r holl offer sterilaidd un-tro sydd ei angen mewn maes aseptig gan gynnal elfennau allweddol ar ddiogelu bob amser. | | | | |
| 8 | Sicrhau, wrth i'r ymgeisydd dynnu'r caniwla, ei fod yn cael ei dynnu'n ofalus gan ddefnyddio symudiad araf a phwyllog a dylid rhoi pwysau ar y man dan sylw unwaith y bydd y caniwla isgroenol wedi'i dynnu. | | | | |
| 9 | Dylid archwilio'r safle a'i oruchwylio gyda gorchudd sterilaidd. Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r nyrs am unrhyw lid a'i gofnodi yn y cynllun gofal | | | | |
| 10 | Sicrhau bod yr ymgeisydd yn archwilio cyfanrwydd y caniwla er mwyn sicrhau bod y ddyfais gyflawn wedi'i thynnu. | | | | |
| 11 | Sicrhau bod yr ymgeisydd yn gwaredu arllwysiadau a roddir yn rhannol yn unol â Phennod 10 Polisi Meddyginiaethau MM01 sef Gwaredu meddyginiaethau a'u dinistrio<br><br>Mae'n rhaid i'r ymgeisydd esbonio ystyr 'datnatureiddio' a sut i'w gyflawni gyda meddyginiaeth hylifol yn unol â Phennod 9 Cyffuriau Rheoledig. | | | | |
| 12 | Sicrhau bod yr ymgeisydd yn gwaredu'r holl wastraff clinigol yn unol â pholisi BIPBC a'i fod yn esbonio pwysigrwydd atal croesheintio a halogi amgylcheddol.<br><br>Mae'n rhaid i'r ymgeisydd esbonio a dangos sut i waredu offer miniog yn y ffordd gywir. | | | | |
| 13 | Sicrhau bod yr ymgeisydd yn tynnu menig ac yn eu gwaredu'n briodol. Golchi dwylo'n drwyadl gyda sebon a dŵr a/neu gel alcohol sy'n lladd bacteria | | | | |
| 14 | Cofnodi rhoi meddyginiaethau ar siartiau priodol ac yng nghynllun gofal y claf/dinesydd/preswylydd gan gynnwys dyddiad gosod y gorchudd. | | | | |
| 15 | Sicrhau bod yr ymgeisydd yn arsylwi'r claf/dinesydd/preswylydd am unrhyw adweithiau negyddol a chyfeirio'n ôl at y nyrs gofrestredig os bydd unrhyw adweithiau'n codi | | | | |

Enw'r asesydd: …………………………………………………….. Dynodiad: ……………………………………..

Llofnod…………………………………………………………………….   Dyddiad: ……………………………………………….

Copi o'r ddogfen gymhwysedd wedi'i chwblhau i gael ei rhoi i'r rheolwr i'w chadw yn y ffeil bersonol